**Dyddiad:** **Dydd Mercher 5 Tachwedd 2003**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Cynigion ar gyfer y Gyllideb 2004-2005**

## Diben

1. Egluro goblygiadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2004-2005 i'r Gwasanaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, ac a gyflwynwyd gerbron y Cyfarfod Llawn ar 22 Hydref 2003.

2. Mae Rheol Sefydlog 19 yn pennu y caiff pob Gweinidog yn y Cynulliad sy'n aelod o bwyllgor pwnc ofyn ei farn am y Gyllideb Ddrafft a'i chyflwyno i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Argymhellion

3. Bod y Pwyllgor yn cyflwyno ei sylwadau i mi am y Gyllideb Ddrafft.

## Y cefndir

4. Lansiwyd cylch y gyllideb ym mis Mehefin pan anfonodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus lythyr at y Pwyllgorau. Roedd y llythyr yn egluro y byddai'r cylch yn ymdrin â dosbarthu cyfanswm yr holl adnoddau a oedd wedi'u pennu eisoes, gan nad oedd hon yn flwyddyn cynnal Adolygiad o Wariant yn Lloegr. Nododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau ar gyfer Cylch Cynllunio'r Gyllideb mewn llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf 2003 oddi wrth David Melding ataf i. (Gweler Atodiad 1). Mae'n bwysig cofio bod yr hyn y gallwn ei gyflawni yn y flwyddyn gyfredol bob amser yn effeithio ar wariant yn y dyfodol. Yn ystod 2003-04 byddwn:

- wedi lleihau'r niferoedd a oedd yn aros am donsilectomi, ar ôl rhoi arian ychwanegol ar gyfer prynu offer llawfeddygol ac offer untro;
- wedi cwblhau cam Bro Taf y rhaglen sgrinio ar gyfer retinopathi clefyd y siwgr. Bydd 80% o boblogaeth Cymru yn cymryd rhan yn y cynllun hwn yn ystod 2004-05 a 100% o'r boblogaeth

erbyn 2005-06;

- wedi rhoi £750 mil ar gyfer prosiectau lleol sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd ledled Cymru wrth baratoi am y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol;
- wedi buddsoddi mewn cyflymyddion unionlin newydd ar gyfer y De a'r Gogledd;
- wedi rhoi £2 filiwn o arian cyfatebol ar gyfer hospisau gwirfoddol;
- wedi gwella adeiladau ym maes gofal sylfaenol;
- wedi rhoi £2.2 miliwn i wella gwasanaethau sterileiddio;
- wedi parhau i ddatblygu ein Hysgolion Clinigol newydd a fydd yn agor y flwyddyn nesaf;
- wedi symud y rhaglen ddatblygu ar gyfer labordai'n ymdrin â chathetrau y galon yn ei blaen;
- wedi darparu'r arian ar gyfer cam cyntaf yr ysbyty i blant;
- wedi dyblu'r buddsoddiad ar gyfer cyflwyno rhaglen sgrinio'r newyddanedig.

5. Yn ystod 2003, mae Byrddau Iechyd Lleol wedi'u sefydlu o dan adain y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru a'i bartneriaid. Mae'r Adolygiad o Wariant a gynhaliwyd gan Wanless a'r canlyniadau sy'n deillio ohono wedi'u cyflwyno. Mae'n anorfod y bydd 2004-05 yn flwyddyn o atgyfnerthu ac o wynebu her. Byddwn yn atgyfnerthu drwy ganiatáu i'r Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu'r gwaith a ddechreuwyd, ac yn wynebu her o ran gweithredu ymateb y Llywodraeth i'r agenda a osodwyd gan Adolygiad Wanless.

6. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid y Gyllideb drafft yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Hydref.

## Blaenoriaethau'r Pwyllgor

7. Rwy'n falch o allu dweud bod y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf yn golygu y gallwn gadw at brif flaenoriaethau'r Pwyllgor hwn yn unol â'r hyn a nodwyd yn y llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf yr anfonodd David Melding ataf. Yn benodol:

- ### talu cost contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Mae Is-grwp Gwariant y Gwasanaethau Iechyd Teulu wedi cynyddu £174.7 miliwn yn ystod 2003-04. Y rheswm am y cynnydd hwn yw bod yr holl arian ar gyfer y Contract Meddygon Teulu wedi'u dwyn ynghyd. O fewn hwn, mae cyfanswm yr arian ar gyfer Contract y Meddygon Teulu a'r Cynllun y Tu Allan i Oriau Arferol wedi cynyddu £24 miliwn. Hefyd, ceir cynnydd o £14.5 miliwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill sy'n Gontractwyr.

- ### cyflwyno'r fformiwla ar gyfer cyllido anghenion uniongyrchol yn llawn

Bydd y Cynulliad yn parhau i ganolbwyntio ar geisio lleihau anghydraddoldebau ym maes Iechyd. Bydd

y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf felly yn parhau i roi'r broses o ddiwygio fformiwla Townsend ar waith. Yn ystod 2002-03, rhoddwyd £7 miliwn i roi'r broses hon ar waith, a rhoddwyd £4 miliwn ychwanegol eleni i atgyfnerthu'r gwaith. Gan gynnwys £5 miliwn ychwanegol ar gyfer 2004-05, yn Is-Grwp Gwariant y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, mae'r arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer ymdrin ag anghydraddoldebau yn cynyddu i £16 miliwn. Mae'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd yn parhau yn £6 miliwn. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol sy'n dangos ein bod yn cadw at ein hymrwymiad i wario mwy o'n harian lle mae ei angen fwyaf ym maes iechyd.

- **sicrhau y gellir rhoi'r argymhellion yn yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith**

Trafodir y mater hwn yn fanwl yn y cyfarfod nesaf ar 5 Tachwedd. Mae'r Tablau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys £25 miliwn o dan Is-grwp Gwariant Gwasanaethau Iechyd Eraill a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd £16 miliwn o arian y GIG yn cael ei glustnodi er mwyn buddsoddi'n fwy mewn TGCh drwy 'r rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd. Bydd rhoi Adolygiad Wanless ar waith yn rhaglen 10 mlynedd a bydd y GIG yn rhoi sylw mawr i'r gwaith yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a mi wedi cytuno mai'r her ar gyfer llywodraeth leol y flwyddyn nesaf fydd rhoi gofal cymdeithasol ar frig yr agenda. Bydd y cytundebau polisi yn rhoi'r brif flaenoriaeth i wella gwasanaethau'n ymwneud â rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Ein nod fydd sicrhau hyn mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol y flwyddyn nesaf a'r Byrddau Iechyd Lleol fydd yn ysgogi'r newid.

- **ariannu "Gwireddu'r Addewidion"**

Mae cynnydd o £4.5 miliwn yn llinell wariant cyllideb y Gwasanaethau Cymunedol i Oedolion o fewn Prif Grwp Gwariant Gwasanaethau Iechyd Eraill a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn o ran ein nod i gwblhau'r holl grantiau adsefydlu ym maes gofal cymdeithasol erbyn diwedd 2006. Bydd yr arian yn sicrhau bod ein hymatebion i 'Gwireddu'r Addewidion' yn cael eu gweithredu.

## Materion i'w Hystyried

8. Mae'r Tablau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys y cynnydd yn yr arian, fel y nodir isod,

**Arian ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £4,530.0 miliwn; Cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £368.9 miliwn (mae'n cynnwys £25.6 miliwn, sef amcangyfrif o'r arian a gaiff ei drosglwyddo o'r Adran Gwaith a Phensiynau)**

9. Mae cyfanswm yr arian wedi cynyddu 8.9 y cant ar gyfer 2003-04 (neu 8.3 y cant heb yr arian a drosglwyddir o'r Adran Gwaith a Phensiynau). Hwn yw'r cynnydd canrannol mwyaf gan unrhyw Brif Grwp Gwariant yn y Cynulliad, sy'n dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn brif flaenoriaeth.

### Arian ar gyfer Iechyd - £4,278.8 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £297.3 miliwn

10. Mae'r cynnydd ar gyfer Iechyd yn 7.5 y cant. Bydd bron 2 bwynt canran o'r cynnydd yn cael eu cyfeirio at y rhaglen bwysig o foderneiddio tâl sy'n cynnwys contractau newydd ar gyfer ymgynghorwyr, meddygon teulu a'r rhaglen Agenda ar gyfer Newid ar gyfer holl grwpiau staff eraill y GIG. Bydd y symiau sy'n weddill yn ariannu codiadau sy'n sylweddol uwch na'r chwyddiant yn y GDP a ragwelir ar gyfer y refeniw a ddyrennir i'r Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru.

### Is- grwp Gwariant y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Cyllid - £3,525.0 miliwn;**cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £113.3 miliwn

11. Y cynnydd gwirioneddol yn yr Is-grwp Gwariant hwn yw £239.3 miliwn, neu 7.0 y cant, o'i gymharu â 2003-04. Mae llinellau'r gyllideb yn dangos bod cynnydd o 3.3 y cant, o'i gymharu â 2003-04. Y rheswm am hyn yw bod £126.0 miliwn wedi'i drosglwyddo i Is-grwp Gwariant Gwasanaethau Iechyd Teulu, yn sgil ailstrwythuro'r cyllid ar gyfer y contractau meddygon teulu. O fewn y gyllideb hon, rydym yn ariannu:

- y cynllun moderneiddio tâl, ynghyd â'r rhaglen Agenda ar gyfer Newid, a chontract newydd ar gyfer ymgynghorwyr;
- codiadau sy'n sylweddol uwch na'r chwyddiant a ragwelir yn y GDP ar gyfer y refeniw a ddyrennir i'r Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru, gan gynnwys presgripsiynau ar gyfer cyffuriau ym maes gofal sylfaenol;
- cynnydd o £13.7 miliwn ar gyfer Cyfalaf y GIG, sy'n gwneud cyfanswm o £111.6 miliwn yn y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys cyllido'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau angiograffi;
- rhoi £15 miliwn eto, sef y swm a fuddsoddwyd ar gyfer 2003-04 ym maes orthopaedeg, pwysau o ran capasiti/pwysau brys a rhestrau aros;
- £16 miliwn ar gyfer buddsoddi yn y rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd er mwyn ceisio gweithredu'r argymhelliad a wnaed yn Arolygiad Wanless ar hyn;
- £5 miliwn ychwanegol yn benodol i'w fuddsoddi yn y gronfa Anghydraddoldebau Iechyd yn y meysydd sydd fwyaf eu hangen arnynt o dan y fformiwla anghenion uniongyrchol, gan gynyddu'r cyfanswm i £16 miliwn.

12. Fel y soniodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei haraith ar 22 Hydref, yn ogystal â'r arian yn yr Is-Grwp Gwariant hwn, byddwn yn gostwng taliadau presgripsiwn £1 yn ystod 2004-05. Bydd y Cynulliad yn rhoi arian i'r GIG sy'n ychwanegol i'r dyraniadau yn y Gyllideb ddrafft er mwyn cwrdd â'r gostyngiad hwn yn yr incwm ar gyfer taliadau

presgripsiwn.

### Is-grwp Gwariant Addysg a Hyfforddiant

**Cyllid - £152.4 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - dim**

13. Ar gyfer yr Is-grwp Gwariant hwn, ymddengys nad oes unrhyw newid o'i gymharu â 2003-04 oherwydd yr arian a drosglwyddwyd i Is-grwp Gwariant y Gwasanaethau Iechyd Teulu ar gyfer Contractau Meddygon Teulu. Y cynnydd gwirioneddol yn y gyllideb ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yw £10.2 miliwn neu 6.7 y cant o'i gymharu â 2003-04. Mae hwn yn ariannu twf ym meysydd addysg clinigol a hyfforddi nyrsys, lle byddwn yn cadw at ein holl ymrwymiadau.

### Is-grwp Gwariant y Gwasanaethau Iechyd Teulu

**Cyllid - £538.8 miliwn; Cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £174.7 miliwn**

14. Ymdrinnir yn fanwl â hyn ym mharagraff 7 uchod.

### Is-grwp Gwariant Gwella Iechyd

**Cyllid - £44.6 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £5.3 miliwn**

15. Mae hwn yn gynnydd o 13.5 y cant o'i gymharu â 2003-04. Mae'r arian yn cynnwys ehangu'r rhaglen frechiadau ac imiwneiddio a mesurau eraill sy'n ymwneud â iechyd y cyhoedd.

### Is-grwp Gwariant Hybu Iechyd

**Cyllid - £4.9 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £1.3 miliwn**

16. Ar gyfer yr Is-grwp Gwariant hwn, mae cynnydd o 34.6 y cant o'i gymharu â 2003-04. Mae hwn yn ariannu'r gwaith o adfer llinell sylfaen ar gyfer Reoli Tobaco ar ôl trosglwyddo £0.09 miliwn i'r Byrddau Iechyd Lleol yn 2003-04.

### Is-grwp Gwariant Safonau Bwyd

**Cyllid - £2.3 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - dim**

17. Nid oes unrhyw newid o'i gymharu â 2003-04.

### Is-grwp Gwariant Bwydydd Lles

**Cyllid - £11.0 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £2.7 miliwn**

18. Mae hwn yn gynnydd o 32.5 y cant o'i gymharu â 2003-04. Mae hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o alw am fwydydd lles a fitaminau.

**Cyllido'r Gwasanaethau Cymdeithasol - £251.2 miliwn; Cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £71.6 miliwn (sy'n cynnwys £25.6 miliwn, sef amcangyfrif o'r arian a drosglwyddir o'r Adran Gwaith a Phensiynau)**

19. Mae cyfanswm yr arian wedi cynyddu 39.9 y cant ar gyfer 2003-04 (neu 25.6 y cant heb yr arian a drosglwyddir o'r Adran Gwaith a Phensiynau).

**Is-grwp Gwariant ar gyfer Plant**

**Cyllid - £82.2 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £9.3 miliwn**

20. Mewn ymateb i geisiadau oddi wrth adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae grant 'Plant yn Gyntaf' wedi'i gadw fel grant penodol. Mae'r llinell sylfaen ar gyfer Gwasanaethau ar gyfer Plant sy'n ariannu'r grant, yn cynyddu bron £6 miliwn rhwng 2003-04 a 2004-05. Mae llinell sylfaen y cynllun grant Cymorth yn cynyddu tua £3 miliwn rhwng y ddwy flynedd, sy'n cadarnhau'r dyraniadau dangosol a roddwyd i bartneriaethau lleol.

**Gwasanaethau Cymdeithasol Personol - Cyllid Cyfalaf Cyffredinol**

**Cyllid - £6.5 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - dim**

21. Nid oes unrhyw newid o'i gymharu â 2003-04.

**Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill**

**Cyllid - £148.3 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £59.4 miliwn**

22. Mae hyn yn cynnwys ailflaenoriaethu'r codiadau yn y cyllid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu cronfa o bron £25 miliwn er mwyn mynd â'n hymateb i'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei flaen. Ymysg pethau eraill, byddwn yn hyrwyddo hynt y gwaith o:

- Hyrwyddo annibyniaeth;
- Datblygu gwasanaethau Gofal Canolraddol;
- Rhoi cymorth i bobl gartref yn y gymuned;
- Osgoi derbyniadau di-angen;
- Cyflymu'r broses o adael yr ysbyty;

- Ysgafnhau'r pwysau sy'n cael eu rhoi ar y sector acíwt.

Bydd hyn hefyd yn cynnwys ehangu a pharhau â'r rhaglen y cychwynnais eleni i leihau'r Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.

23. Fel y soniwyd eisoes, rhoddir £4.5 miliwn yn ychwanegol o dan y Gwasanaethau Cymunedol i Oedolion er mwyn cadw'r rhaglen adsefydlu ar y trywydd iawn ac er mwyn cadw at ein hymrwymiadau eraill mewn ymateb i 'Gwireddu'r Addewidion'. Rhoddir £2 filiwn ychwanegol hefyd ar gyfer y Strategaeth Pobl Hyn. O fewn Llinell Wariant y Gyllideb ar gyfer Gofal a Chydweithio Hyblyg, rwyf wedi rhoi £2.2 miliwn i helpu'r Awdurdodau Lleol i gyfrannu at waith y Byrddau Iechyd Lleol. Bydd hefyd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yn Adolygiad Wanless o ran cydweithio. Rwy'n parhau i helpu'r Strategaeth Gofalwyr drwy roi grant arbennig o £6 miliwn. Mae'r swm o £25.6 miliwn, sef amcangyfrif o'r arian a drosglwyddir o'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn cael ei defnyddio'n bennaf at ddibenion diddymu'r lwfans preswyl i hawlwyr presennol yn raddol a throsglwyddo'r cyfrifoldeb o ran cyllido i lywodraeth leol.

### Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

### Cyllid - £14.2 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - £3.0 miliwn

24. Mae hwn yn gynnydd o 27.3 y cant o'i gymharu â 2003-04. Mae'n golygu y gellir rhoi mwy o arian i'r awdurdodau lleol ar gyfer helpu i hyfforddi gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol; llunio cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol; a rhoi bwrsarïau i fyfyrwyr gwasanaethau cymdeithasol. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r rhain yn Adroddiad Wanless.

### Iechyd a Gwasanaethau Iechyd: dibrisiant

### Cyllid - £12.5 miliwn; cynnydd o'i gymharu â 2003-04 - dim

25. Nid oes unrhyw newid o'i gymharu â 2003-04.

### Cydymffurfio

26. Mae'r papur hwn yn ymwneud â'r Cyllidebau ym Mhrif Grwp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyllideb y Cynulliad. Pennir gweithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â dyrannu Cyllidebau rhaglenni yn Rheol Sefydlog 19. Mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad wedi gweld hyn ac mae'n fodlon.

### Y Goblygiadau Ariannol

27. Mae'r goblygiadau ariannol yn unol â'r hyn a nodir yn nhablau'r Gyllideb ddrafft.

## Themâu Trawsbynciol

28. Mae tablau'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys yr arian ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2004-05 a bydd cynigion ar gyfer 2005-06 yn dilyn y flwyddyn nesaf. Mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi egluro y bydd tystiolaeth o gydweithio ar draws y Cynulliad. Mae gweithredu Adolygiad Wanless yn enghraifft dda o gydweithio rhwng y GIG a Llywodraeth Leol. Mae'r Gyllideb Ddrafft hefyd yn darparu cyllid ar gyfer datblygu ymhellach y gwaith o ehangu addysg glinigol a ddechreuwyd y llynedd ac mae'n cynnig cyfleoedd i'r GIG ac Addysg gydweithio mewn ffordd drawsbynciol. Bydd y cynigion ar gyfer rhoi brecwast am ddim yn yr ysgolion a mynediad am ddim i byllau nofio yn helpu i hyrwyddo camau trawsbynciol a fydd yn arwain at Gymru iachach.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

29. Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno ei sylwadau i mi am y Gyllideb Ddrafft erbyn 19 Tachwedd.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Enwau cyswllt:**
Iechyd - Martin Riley, Cyllid y GIG, ffôn 029 2082 3248;
Gwasanaethau Cymdeithasol – Mike Shanahan, 029 2082 3191